

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr elusen genedlaethol dros chwarae **Gwanwyn 2011**



Yr hawl i chwarae



Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Newyddion	3-5
Chwarae a Hawliau Plant	6-7
Agenda ar gyfer Chwarae Plant yng Nghymru	8
IPA Cymru 2011	9
Chwarae a 'Gwneud Tlodí'n Llai Niweidiol i Blant'	10-11
Beth sy'n Digwydd o Amgylch Cymru?	12
Beth mae Plant yn eu Harddegau ei Wir Angen	13
Datblygu'r Gweithlu	14-15
Digwyddiadau a'r Diweddaraf am Ein Staff	16

Cyhoeddir *Chwarae dros Gymru* gan Chwarae Cymru dair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Ty Baltig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick
Ffôn: 01443 843 520
E-bost: sales@carrickdp.co.uk

Golygyddol

Mae'n amser etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol unwaith eto – mae fel petai'n ddoe pan gynhaliwyd etholiadau'r senedd y llynedd ond hyd yn oed yn y cwta 12 mis diwethaf mae'r hinsawdd yr ydym yn gweithio ynddo wedi newid.

Rydym yn ffodus yma yng Nghymru – mae ein Cynulliad Cenedlaethol wedi cydnabod pwysigrwydd chwarae plant a darparu ar gyfer plant sy'n chwarae. Ond allwn ni ddim a bod yn hunanfodlon. 'Does dim fyth yn syml. Tra bod ymrwymiad polisi clir gan y Cynulliad, ar hyn o bryd nid yw'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol.

Er gwaethaf cyhoeddiad arfaethedig rheoliadau a chanllawiau ar weithredu elfen digonolrwydd chwarae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu'n ddigonol ar gyfer plant yn chwarae) mae gennym dystiolaeth bod rhai gwasanaethau chwarae'n cael eu heffeithio'n anghyfartal gan doriadau Awdurdodau Lleol. Mae'n gwbl amlwg nad yw rhai cynghorwyr a swyddogion awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u dyletswydd cyfreithiol i ddarparu'n ddigonol ar gyfer chwarae plant a'u bod yn dal i ystyried gwasanaethau chwarae fel targed rhwydd pan fo arian yn dynn. Trwy dorri gwasanaethau chwarae byddant nid yn unig yn siomi plant ond byddant hefyd yn gadael yr Awdurdod Lleol i lawr pan ddaw'n fater o gynnal awdit o ddarpariaeth chwarae dan y Mesur.

Mae hyn yn bwysig; er nad ydym yn gwybod eto sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu beth yn union y mae darpariaeth chwarae

digonol yn ei olygu, rydym yn gwybod ei bod yn well peidio â gwneud camgymeriad costus – o ran arian, ewyllys da yn ogystal â hyder plant a'u cymuned.

Yn barod ar gyfer yr etholiad, rydym wedi cyhoeddi ein Agenda ar gyfer Chwarae Plant y byddwn yn ei defnyddio yn hustyngau'r etholiad ac yn parhau i'w defnyddio yn y dyfodol. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â'n aelodau. Mae'r agenda'n dynodi yr hyn y credwn yw'r blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae croeso ichi ei defnyddio er budd darpariaeth chwarae ar gyfer plant. (Ar gael yn y rhifyn hwn o Chwarae dros Gymru, ar-lein ar www.chwaraecymru.org.uk ac ar ffurf taflen).

Rydym yn cysylltu â chydweithwyr ac aelodau Chwarae Cymru ar draws y wlad i ymchwilio i wir oblygiadau'r toriadau fel y gallwn llobio ac ymgyrchu ar lefel genedlaethol ac adrodd yn ôl i wleidyddion ac eraill sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau.

Boed i neb yng Nghymru anghofio, mae darparu ar gyfer chwarae plant yn ddyletswydd cyfreithiol, fydd yr etholiad ddim yn newid y gyfraith, efallai nad yw'r manylion wedi eu penderfynu ond mae'r darlun yn gwbl eglur.

Mae plant o Ogledd Cymru wedi rhoi eu sylwadau inni am eu hawl i chwarae ac mae'r rhain wedi eu hargraffu wrth ymyl yr erthyglau a'r traethodau yn y rhifyn hwn – diolch i bawb a gyfrannodd.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)



Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) wedi derbyn cymeradwyaeth frenhinol, felly Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan o'n cyfraith ddomestig.

Mae'r Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau fydd yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar agwedd bresennol, seiliedig ar hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at bolisiau ar gyfer plant a phobl ifainc rhwng 0-25 mlwydd oed, yn ogystal â chryfhau statws plant a phobl ifainc yn ein cymdeithas yng Nghymru.

Meddai Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant:

'Mae hwn yn Fesur sy'n torri tir newydd ... Unwaith eto, mae hyn yn arddangos ein ymroddiad parhaus i blant a phobl ifainc.'

Cafodd y Mesur ei groesawu hefyd gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru:

'Dylem fod yn arbennig o falch bod Cymru a'i Llywodraeth yn arwain y ffordd unwaith eto wrth sicrhau statws cyfreithiol plant a phobl ifainc fel dinasyddion llawn o'n gwlad. Nawr, bydd rhaid inni sicrhau bod y ddeddfwriaeth yma'n gwneud gwahaniaeth ymarferol,

cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifainc.'

Ychwanegodd Andrew Chalinder, pennaeth Achub y Plant yng Nghymru a Chadeirydd Grŵp Monitro CCUHP Cymru:

'Byddwn yn parhau â'n rôl pwysig o fonitro bod llywodraeth yn cydymffurfio â hawliau ac oblygiadau'r CCUHP ac i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth pwysig yma.'

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â:
www.cynulliadcymru.org

Gwefan newydd Hawliau Plant

Mae Achub y Plant wedi lansio gwefan newydd Hawliau Plant yng Nghymru sydd wedi ei ddylunio i gynorthwyo ymarferwyr, llunwyr polisiau, rheolwyr a strategwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i fabwysiadu safbwynt hawliau plant tuag at eu gwaith.



Cynhyrchwyd yr adnodd ar y we gan Achub y Plant gydag ariannu rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae nifer o bartneriaid, yn enwedig Grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Cymru, ynghlwm â datblygiad parhaus y wefan.

Meddai Rhian Croke, swyddog polisi a hawliau plant Achub y Plant Cymru:

'Mae'n wych ein bod yn gallu lansio adnodd ar-lein bywiog fydd o gymorth i bobl broffesiynol ar draws Cymru sy'n gweithio â phlant a phobl ifainc i gael gwell dealltwriaeth o hawliau dynol plant a sut i'w rhoi ar waith. Bydd y wefan hefyd yn helpu i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth (hawliau plant) yma sy'n torri tir newydd ... golyga hyn y bydd yn rhaid i Weinidogion dalu sylw dyledus i'r hawliau a'r oblygiadau a geir yn CCUHP.'

www.childrensrightswales.org.uk

Cynnydd ym mhrisiau'r CRB

Mae'r Bwro Cofnodion Troseddol (CRB) wedi cyhoeddi y bydd cost uwch-wiriad y CRB ar gyfer gweithwyr cyflogedig yn cynyddu i £44 o'r 6^{ed} o Ebrill 2011.

Bydd gwiriadau CRB ar gyfer gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn rhad ac am ddim.

Wyddoch chi bod modd ichi drefnu gwiriadau CRB rhad ac am ddim ar gyfer staff sy'n gweithio mewn darpariaeth rheoleidd trwy eich aelodaeth o Chwarae Cymru?

Am fwy o wybodaeth ynghylch aelodaeth Chwarae Cymru, ymwelwch â: www.chwaraecymru.org.uk

Ymchwil gemau plant

Mae ymchwil newydd gan The Institute of Education, Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol Sheffield wedi canfod, er bod gemau traddodiadol y maes chwarae fel 'chwarae tic' yn parhau i fod yn boblogaidd, bod 'gemau consol, cerddoriaeth bop a'r teledu mewn gwirionedd yn cyfoethogi chwarae esgus plant; gan ychwanegu themâu amserol i senarios ffantasi wrth i ieuencid gynnwys eu hoff gymeriadau, sêr teledu realiti, caneuon pop a symudiadau dawns i mewn i'w bydoedd dychmygol'.

Mae'r prosiect ymchwil yn seiliedig ar arsylwadau o feysydd chwarae dwy ysgol gynradd yn Sheffield a Llundain dros gyfnod o ddwy flynedd.

Dywedodd yr Athro Jackie Marsh o Brifysgol Sheffield: 'Mae'r prosiect wedi arddangos sut y mae plentyndod yn newid mewn oes gyfryngau newydd ... Mae'r maes chwarae'n darparu gofod pwysig i blant ymgysylltu â'r modd y mae eu diwylliant yn newid mewn oes digidol.'

Mae adroddiad 'Children's playground games and songs in the new media age' ar gael i'w lawrlwytho oddi ar: <http://tinyurl.com/6cssrat>

Caiff y prosiect ei arwain gan yr Athro David Burn fydd yn cyflwyno papur 'Playground Games in the Age of New Media: connecting children's playground cultures and media cultures' yng nghynhadledd yr IPA 2011 yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf.

Yn ogystal, fel rhan o'r prosiect, mae Grethe Mitchell wedi cynhyrchu ffilm ddogfen 50 munud, 'ipi-dipi-dation', sy'n 'cynnig cipolwg diddorol ar fyd y maes chwarae trwy lygaid y plant eu hunain'. Bydd Grethe yn dangos y ffilm ddogfen yng nghynhadledd yr IPA 2011.

Ynghyd â'r adroddiad mae'r Llyfrgell Brydeinig wedi lansio gwefan newydd - *Playtimes: a century of children's games and rhymes* - fydd yn creu archif newydd o gemau plant: www.bl.uk/playtimes

Lansio Adnodd Plant fel Ymchwilwyr

Yn ddiweddar lansiodd **Draig Ffyni a'r Uned**

Cefnogi Partneriaethau (PSU)

gyhoeddiad newydd, *Plant fel Ymchwilwyr – Pecyn Adnoddau*, sy'n cynnwys dulliau cyfranogol hynod ddibynadwy sydd wedi'u defnyddio gan Draig Ffyni dros y pedair blynedd diwethaf wrth weithio â phlant 5 i 11 mlwydd oed i'w galluogi i ymchwilio ac arwain eu prosiectau eu hunain.

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i redeg prosiect ymchwil, enghreifftiau o ble y defnyddiwyd y broses o'r blaen, dulliau ymchwilio ac awgrymiadau ynghylch sut y gellid defnyddio'r rhain.

Mae'r pecyn *Plant fel Ymchwilwyr – Pecyn Adnoddau* ar gael i'w lawrlwytho o wefan Draig Ffyni Bach, ynghyd â chopiau o'r cyflwyniadau a gafwyd yn ystod y lansiad.

www.funkydragonjunior.co.uk/cymraeg/



Cymwysterau derbyniedig ar gyfer gweithwyr chwarae yng Nghymru

Mae SkillsActive, y cyngor sgiliau sector dros hamdden egniol, dysgu a lles, wedi cynhyrchu rhestr wedi ei diweddarau o *Accepted qualifications for the playwork workforce in Wales (2011 – 2012)* ar gyfer gweithwyr chwarae, cyflogwyr gwaith chwarae, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau cenedlaethol.

Mae cymhwyster Chwarae Cymru, Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyyddorion ar Waith (P³) ar y rhestr.

Mae'r rhestr ar gael i'w lawrlwytho o wefan Chwarae Cymru: www.chwaraecymru.org.uk

Iechyd a Diogelwch – da ar les pawb

Y llynedd fe wnaethom adrodd ar adolygiad Llywodraeth y DU o arferion iechyd a diogelwch, ac argymelliadau'r Arglwydd Young i'r Prif Weinidog (*Common Sense, Common Safety* Hydref 2010).

Ers hynny, mae'r Play Safety Forum wedi cwrrd â chynrychiolwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i drafod oblygiadau'r adroddiad o ran darparu ar gyfer chwarae plant.

Ar 21 Mawrth 2011 cyhoeddodd David Cameron adolygiad annibynnol brys o reoliadau iechyd a diogelwch (sef *Good Health and Safety, Good for Everyone*) i'w gadelirio gan yr Athro Ragnar Löfsted o King's College Llundain. Y nod yw symleiddio rheoliadau a lleihau biwrocratiaeth. Gofynnwyd i'r panel adolygu gyflwyno eu hargymelliadau erbyn mis Hydref 2011 ac yna bydd y Llywodraeth yn penderfynu sut i'w fwrw ymlaen. Mae'r Play Safety Forum wedi cwrrd â'r panel adolygu er mwyn codi materion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i ddarpariaeth chwarae plant.

Beth yw'r Play Safety Forum?

Mae'r Play Safety Forum (PSF) yn grŵp annibynnol o fudiadau cenedlaethol sydd â diddordeb byw mewn arfer da o fewn darpariaeth chwarae, yn

enwedig materion sy'n ymwneud â risg ac iechyd a diogelwch. Mae Chwarae Cymru wedi bod yn aelod gweithgar ers sefydlu'r Fforwm.

Mae'r Fforwm wedi cyhoeddi dogfennau allweddol sy'n berthnasol i bawb sy'n rheoli neu'n staffio darpariaeth chwarae: *Managing Risk in Play Provision: Implementation Guide* sydd ar gael ar www.playengland.org.uk

Pibau a diogelwch

Cysylltodd Cyngorydd Cymuned o Ganolbarth Cymru â ni ar ôl gweld ein rhifyn diwethaf. Roedd yn 'bryderus iawn o weld y llun ar y clawr blaen – un plentyn mewn piben concriid yn cael ei rollo gan blentyn arall. *Gan fy mod yn byw mewn ardal amaethyddol rwyf yn gwbl ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phibau concriid trymion; maent yn anodd iawn i'w rheoli unwaith eu bod yn symud – yn enwedig i blentyn – maent yn cynrychioli perygl sylweddol iawn i ddiogelwch.*

Yn ffodus bu modd inni dawelu ei feddwl: *y cyfan oedd y 'biben' yn y llun oedd tiwb cardbord mawr ac roedd y plant yn chwarae ag e' mewn cynllun chwarae oedd â gweithwyr chwarae hyfforddedig wrth law i sicrhau bod y plant yn ddiogel rhag unrhyw niwed difrifol tra'n dal i allu cael hwyl a herio eu hunain.*



Ymatebodd yntau: *Gall tiwbiau cardbord fod yn llawer iawn o hwyl – ac wrth gwrs os oes goruchwyliaeth i gael, yna 'does dim problem o gwbl. Fodd bynnag, nid oedd yn armlwg o'r llun mai dim ond tiwbiau cardbord y dylid eu defnyddio – a hynny dan oruchwyliaeth.*

Efallai na fyddai pibau concriid symudol yn ymddangos yn beryglus i blant ac felly efallai na fyddai modd iddynt asesu risg / budd eu defnyddio fel gwrthrychau chwarae drostynt eu hunain. Mae cant a mil o ddefnyddiau i diwbiau cardbord ar gyfer plant sy'n chwarae, ac ni fydd y mwyafrif ohonynt yn arwain at unrhyw niwed sylweddol. Fel darparwyr chwarae ein rôl ni yw cynnal asesiadau risg / budd parhaus, ac atal plant sy'n chwarae rhag cael niwed difrifol.

Gweler erthygl yr Athro Tanya Byron ar dudalen 13.

Ymwelwch â thudalennau Risg yr adran Chwarae ar www.chwaraecymru.org.uk

Keith, Huw a chynnydd ar 'ddigonoldeb'



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (2009-2010) yn pwysleisio materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifainc. Wrth gyfeirio at bwnc cyfleoedd i chwarae, dywedodd Keith Towler:

'Mae buddiannau chwarae hunangyfeiriedig a ddewisir o wirfodd yn gwbl eglur. Bydd plant yn dysgu sut i gymdeithasu, asesu risg ac yn ennill sgiliau trafod trwy chwarae. Mae plentyndod yn amser mor werthfawr ac mae chwarae'n allweddol i blentynod iach a hapus. Ond eto, byddaf yn dal i ddod ar draws enghreifftiau ble na chaniateir i blant chwarae yn ein manau cyhoeddus, ble fo rhieni sy'n caniatáu i'w plant chwarae yn y stryd yn cael eu ceryddu a ble fo eraill mor ofnus y caiff eu plant eu niweidio fel na fyddent hyd yn oed yn ystyried gadael i'w plant chwarae heb oruchwyliaeth parhaus oedolyn.'

'Alla' i ddim peidio â theimlo ein bod wedi colli rhywbeth. Roedd pobl o fy nghenedlaeth i'n mwynhau llawer mwy o ryddid pan yn blant. Hoffwn atw ar bob oedolyn i feddwl sut y gellid agor ein manau cyhoeddus lan i chwarae plant ac i ailystyried eu hagwedd pan fyddant yn gweld plant yn chwarae ar ein strydoedd, yn ein parciau, yng nghefn gwlad ac yn ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd.'

Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ymatebodd Huw Lewis y Dirprwy Weinidog dros Blant fel a ganlyn:

'Rydym ar hyn o bryd yn drafftio rheoliadau, safonau a chanllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar gyflawni eu dyletswydd i asesu ar gyfer a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Bydd hyn yn cynnwys arweiniad ar greu cyfleoedd chwarae diogel ond heriol yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae ym mywyd plentyn.'

Dyma ddiweddariad gan Mary Nicholls, Uwch-reolwr Tîm Rhaglenni Plant a Theuluoedd, Is-Adran Strategaeth Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, am y cynnydd a wnaethpwyd ar lunio'r rheoliadau a'r canllawiau ddaw law-yn-llaw â'r dyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Ym mis Chwefror 2010 derbyniodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol. Mae Adran 11 y Mesur yn



'Allwn ni ddim chwarae yn y stryd oherwydd ei bod yn ffordd brysur ... 'does dim digon o le inni chwarae'

(Grŵp gofalwyr ifainc – 9-11 mlwydd oed)

ymwneud â Chyfleoedd Chwarae ac mae'n darparu ar gyfer Gweinidogion Cymreig i osod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i asesu digonoldeb cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Yng nghydestun yr asesiad hwnnw, a chyn belled â sy'n rhesymol ymarferol, byddai'r dyletswydd yn gofyn i'r Awdurdod Lleol sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Byddai'r dyletswydd yn cael ei ddechrau trwy

'Fyddai' i ddim yn gadael i fy mhientyn chwarae'n annibynnol tan ei fod yn 10 oed'

(Rhiant, Bryn Cadno)

reoliadau ac yn dod â chanllawiau cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu a chynnal ymchwil â phlant, pobl ifainc a rhieni ynghylch eu safbwynt hwy ar chwarae a'r hyn y maent yn ei ystyried sy'n gyfleoedd chwarae digonol yn eu cymunedau. Mae'r Cynulliad wedi trafod ag ystod eang o gyfranddalwyr yn cynnwys mudiadau plant a chwarae a darparwyr hyfforddiant; ac wedi gweithio ar draws adrannau ar faterion polisi sy'n ymwneud â chyfleoedd chwarae plant, megis iechyd, cynllunio a thraffig, i ddatblygu'r safonau a'r canllawiau ar gyfer chwarae.

Mae gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc yn eu Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth o Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu, ac argymhellion yr Adroddiad i Gynulliad Cymru, wedi cyfrannu at y broses hon.

Rhagwelir y caiff y gwaith yma ei ddwyn ymlaen yn ystod 2011.

Am fwy o wybodaeth ynghylch adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ymwelwch â:

www.complantcymru.org.uk

Goroesi a Ffynnu

Mae chwarae'n helpu i gynyddu gwytnwch – gallu plant i ffynnu er gwaethaf adfyd a phwysau yn eu bywydau.

Mae darpariaeth chwarae o safon yn creu amgylchedd ble y gall plant chwarae mewn modd digymell, hyblyg, anhagwladwy, llawn dychymyg ac wedi ei gyfarwyddo eu hunain – mae'r amgylchedd ei hun yn cyfrannu at eu gwytnwch.

Yn yr hinsawdd economaidd presennol, a gan fod newidiadau ariannu ar droed, mae'r esgid yn gwasgu ar ddarpariaeth chwarae mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Yma rydym wedi casglu ynghyd erthyglau am hawl plant i chwarae a'r modd y mae darpariaeth chwarae'n ymateb yn effeithlon i fentrau newydd y Llywodraeth, rydym hefyd wedi llunio agenda yr hyderwn fydd yn cynyddu proffil darparu ar gyfer chwarae plant.

Clochdar dros Chwarae

Ar y 6^{ed} o Orffennaf, fel rhan o ddatgliadau 50^{ed} pen-blwydd yr IPA yn y gynhadledd yng Nghaerdydd, byddwn yn trefnu digwyddiad chwarae gyda'r bwriad o roi llwyfan i ddarpariaeth chwarae gaiff ei gefnogi gan waith chwarae yng Nghymru ac i 'glochdar' ynghylch hawl plant i gael rhyddid, amser a lle i chwarae – a'u hawl i dderbyn darpariaeth ar gyfer eu chwarae. Os oes gennych ddi-ddordeb cymryd rhan, cysylltwch â Marianne Mannello yn Chwarae Cymru.

Clochdar dros chwarae eich hun

Gall pawb wneud rhyw fath o swm. Yn ystod y cyfnod anodd hwn pan fo llawer o wasanaethau chwarae dan fygythiad, gall clochdar neu gadw swm a chael plant ynghlwm â'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch gymaint y maent yn gwerthfawrogi darpariaeth ar gyfer chwarae, fod yn rhan o'ch cynllun goroesi.

Hoffem annog eraill i drefnu eu digwyddiadau diwrnod chwarae 'Clochdar dros Chwarae' eu hunain yn ystod yr haf – yn yr ysgol, ar faes glas y pentref, yn y parc, mewn cae neu faes parcio – unrhyw le y gall plant ac oedolion ddod at ei gilydd a gwneud swm i adenu sylw gan y cyfryngau a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Waeth os yw hynny'n digwydd ar Daiwrnod Chwarae (3^{ed} Awst) neu ar unrhyw adeg arall sy'n fwy strategol briodol, mae lan i chi.

Byddwn yn casglu ynghyd ganllawiau ac awgrymiadau ymgyrchu (y mae llawer ohonynt wedi eu cynnwys eisoes mewn ffeithddalenni yn adran wybodaeth www.chwaraecymru.org.uk neu ar wefan Diwrnod Chwarae ar www.playday.org.uk) i greu pecyn, ac mae lan i chi yn union sut yr ydych am glochdar!

Mae syniadau ar gyfer offer gwneud swm yn cynnwys: cynn, clacsonau, maracas poteli-plastig-a-phys-sychion, corau, bandiau dur, clecwy, rapiwr, chwythwyr parti ... a phlygiau clustiau!

Chwarae

Datblygiadau Newydd



Mae'r International Play Association yn gweithio i gynyddu proffil Erthygl 31 o CCUHP (ar hawl plant i

chwarae). Mae'r IPA wedi darparu tystiolaeth i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (gweler isod) sydd wedi eu perswadio bod angen egluro Erthygl 31 ymhellach – caiff yr eglurhad yma ei gyhoeddi trwy Sylw Cyffredinol. Fel trefnwyr cynhadledd fyd-eang 2011 yr IPA, mae gan Chwarae Cymru sedd ar Fwrdd Gweithredol yr IPA ac ers 2008 rydym wedi cefnogi'r gwaith yma ar ran plant yng Nghymru.

Yn aml iawn cyfeirir at Erthygl 31 fel yr hawl mwyaf esgeulusedig neu angof, a bydd oedolion a phlant yn dehongli'r gair 'chwarae' mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o'r Confensiwn sy'n ymddangos fel ei fod angen dehongliad neu bwyslais pellach. Nod y Sylw Cyffredinol yw cynyddu pwysigrwydd Erthygl benodol a chynyddu atebolrwydd ymysg gwledydd sydd wedi arwyddo'r Confensiwn.

Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU

Mae Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi dylanwadu'n fawr ar lunio polisi yng Nghymru. Dyma'r cytundeb cyntaf i fabwysiadu agwedd holistig tuag at les plant. Dywed Erthygl 31:

1. Mae Pleidiau-Wladwriaethau'n cydnabod hawl y plentyn i **orffwys a hamdden**, i ymuno **mewn chwarae a gweithgareddau adloniadol** sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n rhydd **mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau**.
2. Bydd Pleidiau-Wladwriaethau'n parchu ac yn hyrwyddo hawl y plentyn i gyfranogi'n llawn mewn bywyd diwylliannol a chelfyddydol a byddant yn annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, adloniadol a hamdden.'

Beth fydd y Sylw Cyffredinol yn ei wneud?

Bydd y Sylw Cyffredinol yn *cynnig arweiniad* i lywodraethau'r 192 o wledydd (Pleidiau-Wladwriaethau) sydd wedi arwyddo'r Confensiwn, ynghylch darpariaethau CCUHP yng nghydestun chwarae ac adloniant, gorffwys a hamdden, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd y rhain ym mywydau bob dydd plant trwy'r byd i gyd.

a Hawliau Plant



Gobaith yr IPA yw sicrhau lle mwy canolog i Erthygl 31 yng nghyd-destun llawnach Confensiwn y CU, gan bwysleisio natur annatod erthyglau'r Confensiwn (er enghraifft, mae'r hawl i chwarae'n gwbl gysylltiedig â'r hawl i gael eich cynnwys ac i fod yn iach) ac hefyd i roi rhywfaint o bwyslais ar rôl cyfleoedd plant i chwarae yn eu ffordd eu hunain, sy'n wynebu heriau cynyddol.

Bydd y Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 yn offeryn defnyddiol ar gyfer harnesio egni byd-eang i hyrwyddo hawl plant i chwarae ar draws y byd i gyd. Gall llywodraethau ac awdurdodau chwarae rhan allweddol wrth helpu i sicrhau bod plant yn tyfu lan dan amodau ble y gallant arddel eu hawl i chwarae.

Camau Nesaf

Bydd yr IPA ynghlwm â datblygu'r papur hwn. Mae'n debygol y ceir 'panel ymgynghorol arbenigol' â chynrychiolaeth eang ynghyd â grŵp craidd fydd yn cydweithio'n glòs â grŵp ffocws o Bwyllgor y CU. Bydd Yr Athro Lothar Krappmann, a fu tan yn ddiweddar yn aelod o Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, yn siaradwr gwadd yng nghynhadledd fyd-eang yr IPA yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf. Mae'n ymddangos ei bod yn debygol y bydd yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor ar y Sylw Cyffredinol, ac un o'i amcanion wrth ddod i'r gynhadledd yng Nghymru yw i siarad â'r 'arbenigwyr chwarae' fydd wedi ymgasglu yma.

Fe gymer tua dwy flynedd i ddatblygu'r Sylw Cyffredinol, tan ei weld yn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan Bwyllgor y CU.

Darparu Tystiolaeth

Mae'r IPA wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae trwy'r byd ac i brofi bod angen Sylw Cyffredinol:

- Yn 2010 cynhaliwyd cyfres o ymgynghoriadau ar fynediad plant i'w hawl i chwarae yn – Bangkok, Beirut, Dinas Mecsico, Johannesburg, Mumbai, Nairobi, Sofia a Tokyo. Mae'r canfyddiadau'n rhai diddorol iawn, gweler – <http://article31.ipaworld.org/> Bydd rhai o'r hwylyswyr yn siarad yng nghynhadledd fyd-eang yr IPA yng Nghaerdydd yr haf yma.
- Cam arall oedd comisiynu papur cysyniad, a grewyd gan Stuart Lester a Wendy Russell o Brifysgol Swydd Gaerloyw. Ariannodd The Bernard Van Leer Foundation y gwaith a chyhoeddi'r papur sy'n dwyn y teitl *Children's Right to Play, an examination of the importance of play in the lives of children worldwide*. Bydd yr awduron yn siarad yng nghynhadledd fyd-eang yr IPA ac yn cyflwyno'r papur hwn.

Mae'r papur cysyniad yn archwilio sut y mae chwarae'n perthyn i bob un o'r tri chategori y caiff erthyglau'r Confensiwn eu grwpio ynddynt fel arfer – amddiffyn, cyfranogaeth a darpariaeth. Dyma rai enghreifftiau:

Amddiffyn 'Gellir ystyried chwarae plant fel proses hunanamddiffyn sy'n cynnig y posibilrwydd i gyfoethogi gwytnwch a gallu cyfaddasu. Mae chwarae'n gweithredu ar draws nifer o systemau cyfaddasol er mwyn cyfrannu at iechyd, lles a gwytnwch.'

Cyfranogaeth 'Mae chwarae plant yn cynrychioli ffurf sylfaenol o gyfranogaeth, cael eich plethu i mewn i fywyd bob dydd. Mae ansawdd amgylcheddau plant yn dylanwadu ar eu gallu i chwarae (a thrwy hynny gyfranogi).'

Darpariaeth 'Mae darpariaeth yn awgrymu llawer mwy na dim ond darparu cyfleusterau chwarae. Mae'n gofyn am ystyriaeth ehangach o hawliau plant er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol yn gallu cynnal gallu plant i chwarae.'

Mae'r ddogfen hon ar gael yn llyfrgell Chwarae Cymru ym Mae Caerdydd ac yn ein casgliad o adnoddau yng Ngogledd Cymru, yn llyfrgell Prifysgol Glyndŵr. Mae ar gael hefyd i'w lawrlwytho oddi ar:
<http://ipaworld.org/category/play-resources/>

'Mae pobl hŷn yn ein camddeall ac yn galw'r heddlu pan fyddwn ni allan ar y stryd . . . Mae fel pe bae nhw wedi anghofio sut beth yw bod yn blant'

(Person ifanc, 14 mlwydd oed, Cymru)

'Yn y gymuned ble rwy'n byw, rydym wedi cael ein dwrdio am chwarae yn ein stryd gymaint o weithiau gan un o'r cymdogion fel bod y plant iau wedi dysgu i beidio â thrafferthu chwarae allan o gwbl . . .'

(Person ifanc, 15 mlwydd oed, Cymru)

Agenda ar gyfer chwarae plant yng Nghymru

O gofio bod etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gweill, mae Chwarae Cymru wedi cyhoeddi amcanion ar gyfer polisi gan y Llywodraeth newydd – er mwyn helpu i atgoffa'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pwysigrwydd chwarae a darpariaeth chwarae ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim i eraill ei ddefnyddio – gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu wneud cais am gopi caled.



Pan fyddwn yn gwerthfawrogi chwarae, byddwn yn gwerthfawrogi plant ...

Mae Chwarae Cymru'n galw ar i Lywodraeth nesaf Cymru barhau i flaenoriaethu darparu ar gyfer chwarae. Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol gydnabod bod cael amser, rhyddid a manau da ar gyfer chwarae o'r pwys mwyaf i blant a'u teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n diogelu hawl plant i chwarae yn ei Bolisi Chwarae unigryw ac arloesol. Mae chwarae'n cyfrannu at les a gwytnwch bodau dynol – mae angen inni feithrin amgylcheddau sy'n cefnogi hyn.

Mae rhai plant yn cael eu hatal rhag cael y budd gorau posibl o chwarae oherwydd rhwystrau amgylcheddol a diwylliannol – yn enwedig plant anabl neu blant sydd ar gyron cymdeithas. Trwy fabwysiadu agwedd gydlynol gallwn chwalu'r rhwystrau hyn. Golyga hyn:

- weithio i newid agweddau
- wneud darpariaeth arbennig ar gyfer chwarae plant sy'n tawelu eu meddyliau hwy, a'u gofalwyr, eu bod yn ddiogel rhag bwlio, traffig ac oedolion rheibus.

Mae delio â rhwystrau i chwarae'n dasg i bob un ohonom, ac yn arbennig i lywodraeth. Caiff polisiau sy'n ymwneud â chynllunio, traffig, tai a manau agored, ysgolion a gofal plant effaith uniongyrchol ar gyfleoedd i chwarae.

Mae darparu ar gyfer chwarae'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr agendâu canlynol:

- dileu tlodi plant
- hybu iechyd a lles ac atal afiechyd
- hybu diogelwch cymunedol
- cyfoethogi ac ehangu dysgu
- cyfranogaeth plant a'r gymuned
- datblygiad economaidd
- datblygu'r gweithlu

Dywed plant wrthym:

'Ry'n ni'n hoffi chwarae'r tu allan gyda'n ffrindiau.'

Mae angen i hyn ddigwydd:

- hyfforddiant traws-sector ar gyfer pobl sy'n cynllunio, dylunio, adeiladu a rheoli ein cymunedau er mwyn deall pwysigrwydd chwarae plant, a'u rôl wrth greu manau cyhoeddus plant-gyfeillgar.
- pob ardal breswyl i fod â chyfyngiad cyflymder o 20mya a mentrau sy'n gwneud strydoedd yn gyfeillgar i blant, teuluoedd a chwarae.
- cynllunio a rheoli manau cyhoeddus i gynnig cyfleoedd chwarae sy'n wirioneddol gynhwysol.
- y llywodraeth i gymeradwyo a sicrhau y caiff agwedd synnwr cyffredin ei mabwysiadu tuag at bolisi, arfer a ddeddfwriaethau iechyd a diogelwch.

Dywed plant wrthym:

'Rydym angen amser a gofod i gael hwyl yn a'r tu allan i'r ysgol.'

'Rydym angen i oedolion ddeall pa mor bwysig yw chwarae i ni.'

Mae angen i hyn ddigwydd:

- Pob rhiant i dderbyn gwybodaeth eglur ynghylch pwysigrwydd chwarae a sut y gallant ei gefnogi.
- Ysgolion i ddarparu digon o amser a lle ar gyfer chwarae hunanbenderfynedig a ddewisir o wirfodd yn ystod y diwrnod ysgol a chynnig cyfleoedd chwarae ar ôl ysgol.
- Polisiau cenedlaethol a lleol i gydnabod ac ymateb i rôl pwysig chwarae ym mywydau a datblygiad iach plant.
- Ehangu a gwarchod darpariaeth ar gyfer anghenion chwarae, mudoedd a chymdeithasol pob plentyn, ac yn arbennig plant anabl a / neu blant sydd ar gyron cymdeithas.

Dywed plant wrthym:

'Weithiau fe fyddwn angen oedolion o amgylch i'n helpu os y byddwn eu hangen.'

'Rydym angen dysgu am ein hunain ac eraill heb gael ein goramddiffyn.'

Mae angen i hyn ddigwydd:

- Plant i gael mynediad i ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio.
- Pob sefyllfa gofal plant wedi ei staffio â mynediad i fannau chwarae awyr agored da a hyfforddiant gwaith chwarae o safon.
- Safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer pob sefyllfa gofal plant yn cynnwys safonau ansawdd ar gyfer chwarae, yn ogystal â diogelwch a lles.

Mae chwarae a ddewisir o wirfodd yn allweddol bwysig i bob plentyn a pherson ifanc fel rhan o'u bywydau bob dydd ac yn eu cymunedau eu hunain. Gallwn i gyd fod yn rhan o wneud Cymru yn fan ble y gall plant elwa o chwarae fel rhan o'u bywyd bob dydd.



Chwarae i'r Dyfodol – goroesi a ffynnu



Cynhadledd 50^{ed} Pen-blwydd yr IPA, Caerdydd 4 – 7 Gorffennaf 2011

Yr haf yma bydd Cymru'n cynnal cynhadledd teirblynyddol yr International Play Association yn Neuadd y Ddinas Caerdydd.

Pwy fydd yno?

Rydym yn gweithio'n galed ar y rhaglen ac mae'n llawn dop o ystod eang o gyfraniadau gan: weithwyr chwarae, dylunwyr ac adeiladwyr meysydd chwarae, gweithwyr hawliau plant, cynllunwyr trefol, therapyddion chwarae, addysgwyr, ymchwilwyr a llawer mwy. Ceir cyfleoedd i rwydweithio a llunio perthnasau â phobl broffesiynol o wahanol sectorau a disgyblaethau, sydd i gyd â diddordeb gwella mynediad plant i'w hawl i chwarae.

Erbyn mis Mawrth 2011 roeddem wedi derbyn archebion gan dros 250 o gyfranogwyr, ac mae cyflwyniadau wedi eu cynllunio:

o Gymru, wrth gwrs, ac Awstralia, Brasil, Canada, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Gwlad Belg, Hong Kong, India, Iran, Irac, Japan, Lloegr, Norwy, Portiwgal, Rwmania, Sbaen, Sweden, Twrci, Unol Daleithiau America, Ynysoedd y Philipinau, Yr Alban, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd.

Pam ddylech chi fod yno

Mae'n bosibl y gallai'r gynhadledd hon fod y gynhadledd chwarae a gwaith chwarae fwyaf a'r gorau i'w chynnal yng Nghymru erioed. Mae'n gyfle i gymharu a gwrthgyferbynnu darpariaeth ar gyfer hawl plant i chwarae mewn gwledydd eraill, i gasglu gwybodaeth, syniadau a phrofiad fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r plant yr ydym yn gweithio â nhw, ac er eu mwyn.

I lawer o bobl bydd hwn yn gyfle 'unwaith mewn gyrfa'. Mae llwyddo i gyrraedd cynhadledd ryngwladol tramor yn gryn her i lawer o bobl sy'n gweithio yn y sector chwarae yma. Dyma un o'r rhesymau pam yr oeddem am ddod â'r gynhadledd i Gymru.

Mae mynychu digwyddiad mor amrywiol a llawn dysg â hwn yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae helpu cyfranogwyr i greu cysylltiadau proffesiynol ag eraill yn uchel ar ein rhestr o flaenoriaethau. Mae hwn yn gyfle i rai sefydliadau

ehangu eu cyrhaeddiad daearyddol ble y gallant werthu cynnyrch a gwasanaethau.

Ymwelwch â

www.ipa2011.org/programme i ddsygu mwy am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn IPA 2011.

Cyd-ddigwyddiad, neu rywbeth yn y sêr?

Fe ddechreuom gynllunio cynhadledd yr IPA 2011 Caerdydd yn ôl yn 2008. Rywle ar yr un pryd, mewn bydysawd cyfochrog (fyny'r ffordd ym Mhrifysgol Caerdydd!) roedd grŵp arall o bobl yn cynllunio cynhadledd IPA yng Nghaerdydd ar gyfer 2011. Ond y tro yma roedden nhw'n gweithio ar 6^{ed} Cynhadledd Ryngwladol *Interpretive Policy Analysis*. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r trefnyddion a rhannu dymuniadau gorau am ddwy gynhadledd IPA lwyddiannus.

Chwarae a 'Gwneud tlodi'n llai niweidiol i blant'

Mae newidiadau diweddar mewn polisi a threfniadau ariannu'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer chwarae plant yng Nghymru. Yma, rydym yn archwilio rhywfaint o'r cefndir, ac yn archwilio sut y mae darpariaeth chwarae'n cwrdd â blaenoriaethau newydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi strategaeth newydd sef *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* sy'n nodi:

Yr hawl i chwarae a'i gyfraniad i ddatblygiad a gwynwch plant

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried bod chwarae'n elfen hanfodol o ddatblygiad plant ac yn rywbeth all ddarparu ffactor warchodol gref ym mywydau plant. Fe all, i raddau, warchod plant rhag agweddau negyddol tlodi a chaniatáu iddynt ddatblygu eu rhinweddau mewnol a chynyddu gwynwch yn erbyn anawsterau ac ansicrwydd yn eu cartrefi ac agweddau eraill o'u bywydau. Mae chwarae'n cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol plant, eu hiechyd corfforol a meddyliol, a'u gallu i ddysgu ac ymgysylltu ag addysg.

Er mwyn cefnogi'r ddealltwriaeth yma mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod Cyfleoedd Chwarae yn Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogaeth, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Bydd hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol. Caiff y rheoliadau, y safonau a'r canllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer cydymffurfio â'r dyletswydd hwn eu cyhoeddi yn ystod 2011.

Teuluoedd yn Gyntaf yw rhaglen allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dylunio gwell cefnogaeth integredig ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mae'r prif ffocws ar gefnogi teuluoedd trwy ymyriadau ar adegau ataliol ac amddiffynnol. Mae'r rhaglen yn anelu i yrru ymlaen welliannau i ddylunio a throsglwyddo cefnogaeth i deuluoedd. Ym mis Hydref 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatganiad yn hysbysu pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc ar draws Cymru y bydd 2011/12 yn flwyddyn pontio, gyda mandad eglur i bob proffil Cymorth gael ei unioni ag Egwyyddorion Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae gan blant hawl i chwarae, a thra bo hyn yn cael ei gydnabod yn gynyddol, mae dal angen amlygu sut y gall chwarae a darpariaeth chwarae wedi ei staffio effeithio'n gadarnhaol ar blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Yma, rydym yn archwilio sut y mae darpariaeth ar gyfer chwarae'n ymateb i Egwyyddorion Teuluoedd yn Gyntaf:

Ffocws ar Deuluoedd

- Mae darpariaeth chwarae ar gael yn aml pa fo teuluoedd ei angen fwyaf (ar ôl ysgol, yn ystod gwyliau ysgol, a gyda'r nos

ac ar benwythnosau) gan lanw'r bylchau pan nad yw gwasanaethau eraill ar gael.

- Mae darpariaeth chwarae'n rhoi cyfle i blant ac oedolion, fel ei gilydd, i ehangu eu rhwydweithiau cyfoedion a chymdeithasol – a brofwyd sy'n cynyddu gwynwch.
- Gellir delio â llawer o'r problemau y dywed rhieni y maent yn eu cael yn heriol (er enghraifft rheoli agweddau ar ymddygiad plant) trwy wella mynediad plant i gyfleoedd chwarae sy'n ateb eu anghenion a manau o safon ar gyfer chwarae.
- Mae darpariaeth chwarae'n cynnig seibiant anffurfiol ar gyfer rhieni yn ogystal â phlant – yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Caiff rhieni sy'n gweithio ar neu'n mynychu prosiectau chwarae wedi eu staffio gyfle i arylwi chwarae eu plant, ac i sgwrsio â gweithwyr chwarae all esbonio ymddygiad chwarae – bydd rhieni'n teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy abl i reoli anghenion chwarae eu plant y tu allan i'r ddarpariaeth wedi ei staffio.
- Mae chwarae gyda'i gilydd yn bwysig ar gyfer atgyfnerthu perthnasau teuluol – gall yr esiampl a ddarperir o fewn gwasanaethau chwarae helpu rhieni i ymlacio digon i chwarae â'u plant ac i gael syniadau ar gyfer cyfleoedd chwarae rhad neu rhad ac am ddim.
- Mae llawer o rieni'n pryderu ynghylch gadael i'w plant chwarae allan; bydd darpariaeth â chefnogaeth gwaith chwarae'n cynnig cyfle i rieni ganiatáu i'w plant chwarae'n rhydd y tu allan i'r cartref mewn amgylchedd dan oruchwyliaeth oedolion hyfforddedig.

Wedi ei Deilwra'n Arbennig

- Bydd darpariaeth chwarae o safon yn digwydd mewn amrywiol sefyllfaoedd – bydd prosiectau'n dechrau trwy ymchwilio i nodweddion ac anghenion y gymuned leol a'r manau ble y mae plant a phobl ifainc fwyaf tebygol o fod eisiau ymgasglu, a darparu amgylchedd sydd wedi ei deilwra i anghenion plant a phobl ifainc lleol.
- Mae prosiectau chwarae llwyddiannus yn gweithredu'n unol â'r Egwyyddorion Gwaith Chwarae, gyda phwyslais ar chwarae a ddewisir o wirfodd, hunangyfeiriedig a hunanbenderfyniad plant ... gwasanaeth wedi ei deilwra'n arbennig sy'n wahanol i'r mwyafrif o'r rheini gaiff eu cynnig yn draddodiadol i blant a phobl ifainc.
- Mae gwaith ymchwil wedi awgrymu'n gryf bod plant hyn yn gwerthfawrogi rolau pwysig a pharhaus darparwyr chwarae yn eu bywydau; 'athroniaeth chwarae' sy'n gwerthfawrogi dewis, mynegiant a datblygiad unigol mewn sefyllfa gefnogol.

Integredig

- Mae darpariaeth chwarae o safon yn dibynnu ar weithio partneriaeth cryf rhwng gwasanaethau ac hefyd gydag aelodau o'r gymuned all gyfrannu.
- Bydd darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon yn cynnig 'pair' i gymdogaeth ble y gall plant, na fyddent yn cwrdd a chymdeithasu fel arall, gymysgu mewn amgylchedd digon diogel; bydd hyn yn cynnig profiad o bobl eraill a mwy o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau cymdeithasol eang sy'n cyfrannu at wytnwch plant.

- Yn aml iawn caiff gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a staff eu recriwio o'r gymuned leol.
- Ceir cynnabyddiaeth cynyddol gan bartneriaid polisi sy'n gwerthfawrogi chwarae am nifer o resymau hanfodol a chyfrannol. Maent yn ymwybodol o'r gwahaniaeth wnaiff darpariaeth chwarae i'w gwaith o ran, er enghraifft, diogelwch cymunedol a gwrthsefyll ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Rhagweithiol

- Mae darpariaeth chwarae cymunedol yn apelio at deuluoedd sy'n elwa fwyaf o wasanaethau ataliol cynnar, gan nad oes unrhyw system atgyfeirio ffurfiol.
- Caiff y rhan fwyaf o ddarpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio ei gynnig yn rhad ac am ddim.
- Ceir ffactorau biolegol personol a / neu amgylcheddol allanol sy'n atal rhai plant rhag chwarae. Caiff plant o'r fath eu cefnogi i chwarae mewn amgylchedd ble fo gweithwyr chwarae hyfforddedig sy'n gwybod sut i ymyrryd ble fo angen i hwyluso chwarae. Bydd hyn yn ymestyn manteision chwarae i blant na fyddent fel arfer yn elwa o'i fwynhau.
- Bydd chwarae'n effeithio ar y modd y caiff cyfansoddiad genynnol plentyn ei fynegi, ac ar ddatblygiad cemegol a ffisegol yr ymennydd. Bydd hyn yn ei dro'n dylanwadu'n gadarnhaol ar allu'r plentyn i ffynnu a goroesi. *Gall plant sydd wedi datblygu ymateb dyfeisgar, chwareus i'w amgylcheddau ... gyfaddasu i'r rhain mewn ffyrdd hyblyg, gan arddangos gwytnwch.*
- Bydd chwarae corfforol, egniol, rheolaidd yn helpu i atal afiechyd ac yn lleddfu iselder a phryder.
- Mae cysylltiad cryf rhwng chwarae a chreadigrwydd – mae'n cynnwys meddwl ochrol, dychymyg a datrys problemau.

Dwys

- Mae'r arddull 'fîm o amgylch y teulu' a hybir gan strategaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn canolbwyntio ar achosion sy'n flaenoriaeth – dylai'r fîm (gweithwyr cymdeithasol ayb) ddeall buddiannau chwarae wrth ddatblygu gwytnwch. Gan weithio mewn partneriaeth â darparwyr chwarae, gellid cyfeirio teuluoedd a'u cynorthwyo i gael mynediad i ddarpariaeth chwarae.
- Yn draddodiadol mae darpariaeth chwarae da wedi darparu gofod y gall plant ei ddatblygu ar eu cyfer eu hunain i ateb eu anghenion a'u dymuniadau a ble y gall y gofod dyfu gyda'r plant; gofod sy'n adlewyrchu taitth plant a gofod y byddant yn tyfu i'w garu.
- Ble fo plant wedi eu trawmateiddio gan ddiwyddiadau yn eu bywydau, bydd yr agwedd gwaith chwarae'n cefnogi 'chwarae allan' ac ail-greu profiadau anodd mewn modd sensitif ac anafnol.

Lleol

- Bydd darpariaeth chwarae'n gweithio orau pan fo pobl leol ynghlwm ag o, gan ddarparu mannau 'agos i gartref' y gall plant gael mynediad iddynt yn annibynnol ac yn ddiogel pan fo modd.
- Gall darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon greu canolbwynt ar gyfer cymuned, yn debyg iawn i ysgolion yn ystod y tymor neu fel yr arferai capeli ac eglwys yn y gorffennol, maent yn cynnig cyfleoedd anfygythiol i oedolion a phobl ifainc wirfoddoli a chwarae rhan.
- Caiff darpariaeth chwarae o safon ei ddatblygu'n lleol ac mae'n cyfrannu at gydlynid cymunedol, cysylltiadau â chyfoedion a lleoliad yn ogystal â chynhwysiant cymdeithasol, gan ei fod yn benodol i'r gymuned.

Chwarae a gwytnwch

'Does dim dwywaith bod chwarae'n cyfrannu at allu pob plentyn i ffynnu a goroesi – ac mae'n arbennig o werthfawr i blant difreintiedig. Cafodd y dystiolaeth ei gofnodi'n gwbl eglur mewn cyhoeddiadau diweddar (gweler *Play for a Change* – manylion isod).

Mae'n bosibl y gall tyfu lan mewn amodau difreintiedig gael effaith aruthrol ar ddatblygiad corfforol a meddyliol plant. Gall rhaglenni ymyraethol fod yn ddefnyddiol wrth leihau rhywfaint o effaith niweidiol tlodi, ond bydd rhaid eu cyfannu â ffocws ar gefnogi plant i fod yn gyfranogwyr gweithredol o'r broses o gynyddu eu gwytnwch eu hunain. Gwyddom y caiff pob agwedd o fywyd plant ei dylanwadu gan eu hysfa i chwarae, a bod y math o chwarae hunangyfeiriedig, hunanbenderfymedig gaiff ei gynnig gan ddarpariaeth chwarae o safon yn cynyddu cyfleoedd plant i gynyddu eu gwytnwch personol.

Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio'n cynyddu gallu plant i gynnal eu lles eu hunain ac yn cynorthwyo rhieni i ddeall ac ymdopi â ddatblygiad eu plant.

Mae chwarae'n elfen ganolog o fywyd plentyn iach, a dylai darpariaeth chwarae fod yn ganolog i unrhyw fframwaith sy'n hysbysu rhaglenni ynghylch y modd gorau i gefnogi plant a theuluoedd.

Mae'r strategaeth newydd, Strategaeth Tlodi Plant Cymru, ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan

Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/poverty/newcpstrategy/?skip=1&lang=cy>

Hysbyswyd yr Erthygl hon gan:

Ymgynghoriad Chwarae Cymru gyda Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru Gyfan

Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

People Make Play, a gomisiynodd Play England gan Demos, sy'n dangos sut y mae gwasanaethau chwarae wedi eu staffio, gaiff eu rhedeg gan y sector gwirfoddol yn aml iawn, yn cynyddol dyfu'n elfen hanfodol yn yr agwedd aml-asiantaeth i wella canlyniadau ar gyfer plant, teuluoedd a chymunedau a chredir eu bod hefyd yn fwy cost-effeithiol na gwasanaethau statudol sefydledig.
www.playengland.org.uk/resources/people-make-play

Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives, gan Stuart Lester a Wendy Russell o Brifysgol Swydd Gaerloyw. Dyma adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth sy'n sail i feddwl cyfredol ar chwarae, i gefnogi dealltwriaeth cyfredol o bwysigrwydd chwarae, a'r modd y mae hyn yn berthnasol i bolisi ac arfer cymdeithasol.

The Venture Book: A Case Study of an Adventure Playground, gan Fraser Brown, yn seiliedig ar sgwrs gyda Malcolm King a Ben Tawil. Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cipolwg ar The Venture, maes chwarae antur yng Ngogledd Cymru sydd wedi goroesi a darparu gwasanaethau i blant am dros ddeng mlynedd ar hugain.

'Allwn ni ddim chwarae yn y stryd oherwydd ei bod yn ffordd brysur ... 'does dim digon o le inni chwarae'

(Grŵp gofalwyr ifainc – 9-11 mlwydd oed)

Beth sy'n digwydd o amgylch Cymru?

Dyma grynodedd byr o rywfaint o'r newyddion darpariaeth chwarae a datblygu o amgylch Cymru.

Cyfran Deg i Chwarae ar Ynys Môn

Fel rhan o Raglen Cyfran Deg, mae Ynys Môn wedi blaenoriaethu ariannu ar gyfer chwarae a manau chwarae. Ers ei lansio yn 2003, mae'r rhaglen wedi ariannu nifer o wahanol fentrau yn cynnwys hyfforddiant a datblygu manau chwarae.

Mae Chwarae Cymru wedi bod yn cynghori panel Cyfran Deg Ynys Môn ers 2007 ac wedi datblygu cynllun busnes i fwyafu effaith y prosiect yn ei flynyddoedd olaf. Un argymhellid allweddol oedd i ariannu swydd Swyddog Chwarae i ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Chwarae a helpu i gyflawni nodau'r rhaglen Cyfran Deg. Bydd Siwan Owens, y Swyddog Chwarae a benodwyd yn ddiweddar, yn gweithio ochr yn ochr â'r Prosiect Rhodwyr Chwarae, a ariannwyd gan raglen Chwarae Plant y Loteri FAWR, i sicrhau cynnaladwyedd a pherchenogaeth cymunedol.

Bydd Chwarae Cymru'n datblygu Pecyn Cymorth Cymunedol fel rhan o'r Rhaglen Cyfran Deg, i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned a chymdeithasau chwarae lleol i reoli eu hardaloedd chwarae. Bydd y gwaith yma'n cynnwys pwyntiau defnyddiol ar gyfer dylunio manau chwarae o safon, rheoli risg, a chyngor archwilio a chynnal a chadw ac fel rhan o waith datblygu'r Pecyn Cymorth, archwiliad o ddichonoldeb cynllun yswiriant unigol a gymeradwywyd ar gyfer grwpiau cymunedol.

Am fwy o wybodaeth ynghylch gwaith Chwarae Cymru gyda'r Rhaglen Cyfran Deg ar Ynys Môn, cysyllter â Martin King-Sheard: martin@playwales.org.uk

Lansio Strategaeth Chwarae Conwy a Digwyddiad Cyfranddalwyr Gogledd Cymru

Yn ddiweddar cynhaliodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, mewn partneriaeth â Phartneriaeth Plant a Phobl

Ifainc Conwy, lansiad ffurfio Strategaeth Chwarae Conwy yn Yr Interchange, Hen Golwyn.

Clywodd pawb oedd yn bresennol am y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â newyddion am y Prosiect Rhodwyr Chwarae, 'yr hyn y mae gwaith chwarae'n ei wneud i gymunedau' (sy'n rhoi persbectif Cymreig ar adroddiad *People Make Play Play England*) a'r gyfres Canllawiau Chwarae DIY newydd ar gyfer grwpiau cymunedol, a ariannwyd trwy Cychwyn Cadarn Conwy.

Yn ogystal bu Mary Nicholls ac Inga Bevan o Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS), Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn adrodd ac ymgynghori ar y rheoliadau, y safonau a'r canllawiau ar gyfer Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru).

Daeth lluo o bobl ynghyd oedd yn cynrychioli ystod eang o unigolion a sefydliadau – gyda dros 60 o gyfranogwyr o bob cwr o chwe sir yn bresennol, dyma reswm da dros gynnal rhagor o ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru.

Am fwy o wybodaeth ynghylch Strategaeth Chwarae Conwy, cysylltwch â Martin King-Sheard, Prif Swyddog Chwarae: martinkingsheard@cvsc.org.uk

Prosiect Chwarae Cymunedol y 3 Counties

Dynododd awdi't darpariaeth chwarae a gynhaliwyd gan Brosiect Chwarae Cymunedol y 3 Counties yn Nhorfaen, Casnewydd a Sir Fynwy yr angen i greu mwy o gyfleoedd a manau ble y gall plant a phobl ifainc chwarae'n rhydd mewn amgylcheddau diogel yn y gymuned. Cydnabyddwyd hefyd bod plant angen profi ystod eang o gyfleoedd chwarae – ble fo'r oedolion sydd ynghlwm â'r gwaith yn deall natur a phwysigrwydd pob agwedd ar chwarae plant ac yn gweithio i'w gefnogi.

Mae'r prosiect yn anelu i weithio gyda chymunedau lleol ar draws y tair sir i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd darpariaeth chwarae ac arwyddocâd chwarae ym mywydau plant a phobl ifainc. Mae'r prosiect yn anelu i sicrhau newid mewn agweddau tuag at blant yn chwarae: i sicrhau bod cymunedau'n cefnogi chwarae plant a phobl ifainc trwy ddarpariaeth chwarae,



manau chwarae neu fannau agored yn y gymuned.

Bydd y prosiect yn darparu cyfleoedd hyfforddiant, yn cynnwys cyrsiau gwaith chwarae, sgiliau meddal a chymwysterau wedi eu achredu, ac yn cynyddu sgiliau a rhagbaratoi gwirfoddolwyr â'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal y ddarpariaeth a sicrhau ei fod yn cael ei arwain gan y gymuned.

Mae Prosiect Chwarae Cymunedol y 3 Counties yn anelu i gynyddu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael trwy gael mynediad i adeiladau cymunedol, manau agored, parciau a choetiroedd.

Am fwy o wybodaeth cysyllter ag Alexa Hinnem: alexa@tvawales.org.uk

Mannau Chwaraeadwy Blaenau'r Cymoedd

Mae prosiect Mannau Chwaraeadwy Blaenau'r Cymoedd yn cael ei arwain gan Gymdeithas Chwarae'r Tair Sir a'i ddatblygu mewn partneriaeth â Chwarae Plant a chymdeithas chwarae'r 3 Counties. Mae'r dair cymdeithas chwarae'n anelu i sefydlu manau chwarae newydd â chynlluniau arloesol yn ardal Blaenau'r Cymoedd Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau-Gwent a Thorfaen. Mae Chwarae Cymru'n cydlynu'r prosiect ar draws y rhanbarth, mewn cydweithrediad â PLAYLINK.

Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn casglu caniatâd ysgrifenedig gan dirfeddianwyr perffnasol cyn i fannau chwaraeadwy

cyffrous gael eu dylunio a'u hadeiladu. Mae pum safle ar draws y rhanbarth wedi eu dynodi ar gyfer datblygiad posibl, un ym mhob sir. Bydd y mannau hyn yn cynnig ystod eang o brofiadau chwarae sy'n hygyrch i blant anabl ac heb anabledd, tra'n darparu ar gyfer anghenion y gymuned leol.

Bydd y prosiect yn cynnig enghreifftiau o ystod eang o fannau â chynllun creadigol sy'n ateb anghenion chwarae plant a phobl ifainc. Bydd yn arddangos modelau arfer da sy'n realistig, yn gynaliadwy ac fydd yn annog datblygu mannau chwaraeadwy o'r fath ymhellach, nid yn unig yn ardal Blaenau'r Cymoedd ond ar draws Cymru hefyd.

Bydd y prosiect yn datblygu mannau gwahanol iawn – o dir ysgol diffaith gaiff ei ddefnyddio gan yr ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach, i barc gwledig sy'n cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r gymuned leol, i ailfeddwl am feysydd

chwarae mwy traddodiadol sy'n nesu at derfyn eu hoes, neu sydd wedi eu clirio a heb eu hadnewyddu.

Bydd y prosiect yn cefnogi pob awdurdod lleol dan sylw i lwyddo i ddarparu cyfleusterau chwarae digonol yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru).

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Sarah Southern, Swyddog Prosiect Chwarae Cymru: sarah@playwales.org.uk

Maes Chwarae Antur Penlan, Abertawe

Gyda thristwch mawr y cynhaliodd y maes chwarae antur ym Mhenlan ei sesiwn chwarae mynediad agored olaf. Roedd y plant, y bobl ifainc a'r staff yn eu dagrau.

Cafodd ariannu ar gyfer y maes chwarae ei dynnu'n ôl yn ystod y rownd diwethaf o doriadau ariannol; mae'r maes chwarae antur wedi ei ddatgomiynu a'i droi'n ôl yn dir diffaith.

Cafodd y maes chwarae lawer o'i anturiaethau ei hun, yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol, ond roedd wastad cnewyllyn o blant a phobl ifainc fyddai'n ymweld, yn cael hwyl a dysgu sgiliau bywyd gwerthfawr fydd o ddefnydd mawr iddynt wrth dyfu lan.

Mae'r ardal yn dal i gael ei defnyddio i adeiladu tai pen coed, felly bydd yr etifeddiaeth chwarae'n parhau ac un diwrnod gobeithio y ceir hyd i gyllid i ddatblygu ardal arall debyg ym Mhenlan.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Patricia Cutler, Cyfarwyddwraig Play Right: patricia@playright.org.uk

'Bydd pobl yn rhoi cerydd inni am chwarae ar eu tir gan fod unman arall gennym i fynd'

(Person ifanc –13 mlwydd oed)

Beth mae plant yn eu harddegau ei wir angen

Cyhoeddwyd yr erthygl hon gan yr Athro Tanya Byron yn wreiddiol yng nghylchgrawn 'Weekend' The Times (5 Mawrth 2011)

Mae ymennydd pobl ifainc wedi eu hanelu tuag at aeddfedu a glasod ac maent angen cymryd risg.

Yn anffodus, rydym yn byw mewn cyfnod o fagu plant mewn caethiwed. Mae cylch chwarae a phrofiad plant a phobl ifainc wedi lleihau cymaint fel bod y mwyafrif o blant a phobl ifainc yn eu harddegau cynnar brin fyth yn cael eu gollwng yn rhydd o'u cartrefi.

Wrth gwrs, mae pob un ohonom yn deall yr egwyddor o amddiffyn plant ifainc sy'n methu gwerthuso risg mewn modd beirniadol ac sydd felly angen goruchwyliaeth a chefnogaeth.

Mae datblygiad y cortecs blaenymenyddiol yn allweddol i ddatblygiad gallu asesu a rheoli risg, sy'n gofyn am brosesu cymhleth gwybodaeth amgylcheddol, a gwerthuso'r wybodaeth hynny'n erbyn profiad blaenorol neu godau ymddygiad a ddysgwyd (er enghraifft, paid â chymryd losin gan bobl ddieithr), llunio penderfyniadau a hunan-reolaeth ymddygiadol.

Fodd bynnag, yn ein diwylliant gwrth-risg dybryd, rydym yn trin pob plentyn a pherson ifanc fel pe bae nhw mewn perygl parhaus a bod rhaid eu gwarchod a'u babanu o hyd.

Un elfen annatod o ddatblygiad plant yw mentro, ac fe welwn hyn ar ddau gyfnod datblygiadol allweddol: plant bach dwy a theirblwydd oed a phobl ifainc yn eu harddegau.

Gyda'r ddau grŵp oedran bydd y cortecs blaenymenyddiol yn chwarae rhan – ond am wahanol resymau – a, gyda'r person ifanc yn eu harddegau bydd glasod yn arwain at newid yng ngweithrediad yr ymennydd sy'n galluogi aeddfediad biolegol, seicolegol a chymdeithasol tuag at annibyniaeth trwy arbofi a mentro.

Fodd bynnag, mewn diwylliant sy'n or-obsesiynol ynghylch iechyd a diogelwch ac sydd, o'r herwydd, gan bwyll bach



wedi cyfyngu ar y posibiladau am ryddid a mentro, mae pobl ifainc yn eu harddegau'n fwyfwy naif a bregus, gan ein bod yn gwarafun y cyfleoedd iddynt ddysgu gwersi bywyd pwysig a datblygu sgiliau allweddol byw yn annibynnol.

Bydd angen inni wrthdroi hyn os ydym am roi paid ar y tueddiad cynyddol a welir o anhwylderau poen meddwl ymysg pobl ifainc. Beth felly sydd angen inni ei wneud i ddatblygu cenhedlaeth o bobl ifainc sy'n ymwybodol o risg, sy'n emosiynol wydn a dewr?

Yn gyntaf oll dylem herio ein ofn anghymesur o beryglon y byd go iawn; bydd pryderon bod plant mewn perygl yn golygu ein bod yn gortliwio problemau ac o'r herwydd yn dylunio byd ar gyfer pob plentyn sy'n seiliedig ar brofiadau'r rheini sydd mewn mwyaf o berygl.

Yna, gofynnwch i'ch hun pam yr oeddech chi'n mynd ar y bws i'r ysgol pan nad yw eich plentyn chi, o'r un oedran, yn gwneud hynny. Meddyliwch os yw amserlen hynod strwythuredig, llawn goruchwyliaeth, person ifanc yn ei ardegau yn caniatáu digon o le iddyn nhw jesd 'fod'. Yn olaf, dewch inni gyd fod yn oedolion a rheoli ein pryderon ein hunain, peidio â'u allafu ar ein plant a chaniatáu iddynt 'fod'.

Adolygiad Melyn

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Adolygiad o'r Gallu ar gyfer, ar Modd y Cyflenwir Hyfforddiant Chwarae yng Nghymru', a gyflawnwyd gan Melyn Consulting, a gyflwynodd yr adolygiad ym mis Mawrth 2010. Cyhoeddodd y Cynulliad yr Adolygiad bron i flwyddyn yn hwyrach ym mis Ionawr 2011. Mae'r fersiwn llawn ar gael ar: <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/playtraining/?lang=cy>

Yma, rydym yn bwrw golwg dros rai o argymhellion yr Adolygiad a'r cyflwyniad gweledigaethol:

'Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu'n ddigonol ar gyfer chwarae plant. Bydd y Mesur hwn yn arwain at fframwaith cyfreithiol arloesol ar gyfer chwarae plant nas gwelwyd erioed o'r blaen yn unrhyw le yn y byd, gan olygu y bydd Cymru ar flaen y gad o ran syniadau am blentynod a lle plant a phobl ifanc yn y gymdeithas yn y dyfodol; a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at ymateb y Llywodraeth i her Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

'Dylai'r Mesur hwn gyfrannu tuag at ddyfodol ar gyfer plant a phobl ifanc lle mae'r holl fannau cyhoeddus yn cael eu hystyried yn fannau chwarae posibl, lle caiff plant a phobl ifanc eu gweld a'u clywed yn ein gymdeithas yn chwarae'n rhydd. Er mwyn llwyddo â gweledigaeth mor uchelgeisiol bydd angen i gymunedau Cymru brofi newid sylweddol yn safbwyntiau'r gymdeithas am, ac agweddau'r gymdeithas tuag at, wneud i hawliau plant a phobl ifanc i chwarae ddigwydd.

'Rôl y gweithlu plant a phobl ifanc fydd troi'r syniadau hynny'n realiti i blant; bydd lle allweddol bwysig i'r sector gwaith chwarae yn hyn o beth, gan fod rhaid i ddealltwriaeth y sector am ddarparu amgylchedd ar gyfer chwarae a hwyluso chwarae fod yn echelbin i weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.'

Mae argymhellion yr Adolygiad yn cynnwys:

Polisi Chwarae

'Mae datblygu'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae'n rhan allweddol o ddatblygu isadeiledd hyfforddiant chwarae i ategu Cynllun Cyflawni (y Polisi Chwarae), y Mesur Plant a Theuluoedd a Rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR.'

Darpariaeth Chwarae

'Mae angen i arweiniad ar y dyletswydd newydd yn y Mesur Plant a Theuluoedd gyflwyno diffiniad diamwys o ddigonolrwydd chwarae a phwysleisio pwysigrwydd nid dim ond cydnabyddiaeth a chymorth priodol i chwarae o fewn awdurdodau lleol, ond hefyd y rôl y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei chyflawni wrth gynnal y gweithlu chwarae – ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.'

Argaeledd a Hygyrchedd Hyfforddiant a Chymwysterau Chwarae

'Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i roi cymorth i'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yn ystod y cyfnod allweddol bwysig hwn o newid ac ehangu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gan y Ganolfan Genedlaethol ran i'w chwarae hefyd o safbwynt arolygu'r broses o ailgysylltu'r cyflenwad o hyfforddiant gwaith chwarae â'r galw amdano ledled Cymru – gan gyflawni rôl gydlynw ...'

Anghenion y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol

Dylai'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r anghysondeb o ran cyllid ar gyfer Gwaith Chwarae mewn ffordd strategol. Mae angen gwneud hyn ar ddwy lefel; yn gyntaf, cyllid i alluogi ymarferwyr i gael mynediad at hyfforddiant sy'n bodoli eisoes; ac yn ail, cyllid i'w gwneud yn bosibl i ddatblygu cymwysterau a hyfforddiant newydd y mae'u hangen i ymateb i heriau dysgu cymunedol a thraws-sector a fydd yn cael eu creu gan y Mesur.

Mae gallu'r sector i gyllido hyfforddiant yn gyfyngedig iawn gan nad oes cyllid gan y rhan fwyaf o gyflogwyr ar gyfer datblygu'r gweithlu. O ystyried y dyletswydd newydd a osodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd, mae achos cryf o blaid darparu cyllid craidd i ddatblygu'r gweithlu. Byddai argaeledd cyllid wedi'i ddiogelu i'r sector gwaith chwarae'n gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wella'i allu i gymryd y llyw o ran rhaglenni datblygu'r gweithlu, hyfforddiant a chymwysterau.

Modelau Hyfforddiant Chwarae cyfredol

Mae amrywiaeth y gweithlu chwarae'n golygu bod angen ystod o lwybrau hyfforddiant a chymwysterau. Mae angen cymorth parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cymwysterau a hyfforddiant sy'n mynd i gwrdd ag anghenion sector sy'n ehangu. Dylai hyn gynnwys cymorth i ddatblygu P³ ymhellach – yn enwedig datblygu isadeiledd hyfforddiant (hyfforddwyr galwedigaethol gymwys). Gallai hyn olygu bod angen cyfrannu adnoddau yn y byrdymor nes bod y cymwysterau wedi cael eu prif-frydio ac yn cael eu trosglwyddo trwy golegau a gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Sylwadau Chwarae Cymru

Mae Adolygiad Melyn yn ddadansoddiad trylwyr, gwyb sydd wedi ei ymchwilio'n dda o anghenion datblygu gweithlu'r sector gwaith chwarae. Trwy gomisiynu'r gwaith ymchwil yma, mae'r Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad ariannol sylweddol ac rydym yn hynod o falch, nawr bod yr Adolygiad wedi ei gyhoeddi o'r diwedd, i gael gweld mewn du a gwyn y cyfan yr oeddem yn ei wybod eisoes oedd yn bodoli, sy'n rhoi i ni (a hwythau) dystiolaeth gyhoeddedig cwbl angenrheidiol.

Rydym yn siomedig iawn bod ymateb y Cynulliad i'r argymhellion yn adlewyrchu'r hanesyddol, yn hytrach na'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol a'i fod yn awgrymu diffyg buddsoddi parhaus. Roeddem wedi gobeithio bod dynodi datblygu'r gweithlu fel blaenoriaeth strategol yn Natganiad Polisi diweddar LICC – *'Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd: ein blaenoriaethau polisi ar gyfer gofal plant'* – yn arwydd eu bod yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn natblygu'r gweithlu.

Bydd Chwarae Cymru'n defnyddio'r argymhellion i gyfeirio ffocws ein gwaith wrth gefnogi datblygu'r gweithlu.

Gweler *'Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd: ein blaenoriaethau polisi ar gyfer gofal plant'* ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Diweddariad am Gwaith Chwarae Cymru

Daeth ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gwaith Chwarae Cymru, y ganolfan genedlaethol dros addysg a hyfforddiant gwaith chwarae, i ben ar 31 Rhagfyr 2010.

Hyd yma bu pob ymgais gan Chwarae Cymru i sicrhau ariannu pellach yn aflwyddiannus. Mae pob arwydd a dderbyniom (yn cynnwys Adolygiad Melyn a amlinellir ar y dudalen gyferbyn) yn awgrymu bod angen gwaith y Ganolfan, a'i fod yn cael ei werthfawrogi, a gyda chalon drom iawn y bu raid inni ei chau.

Rydym wrthi'n archwilio cyfleoedd fydd yn galluogi i waith y Ganolfan Genedlaethol barhau; i gynorthwyo i ehangu'r sector gwaith chwarae fel rhan o'r Gweithlu Gwasanaethau Plant ehangach yng Nghymru; i barhau i gyfrannu at drosglwyddo camau gweithredu allweddol a amlinellir yn y Cytundeb Sgiliau Sector. Mae'r Cytundeb hwn, a ddatblygwyd gan SkillsActive ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn mynegi gweledigaeth o ddarpariaeth o safon ar gyfer plant trwy drosglwyddo gweithlu o ansawdd neilltuol.

Yn anffodus bu raid inni hefyd gau gwefan Gwaith Chwarae Cymru. Mae'r holl gynnwys cyfredol a pherthnasol wedi ei drosglwyddo i wefan Chwarae Cymru:
www.chwaraecymru.org.uk

Newyddion P³ Mawrth 2011

Mae cais Chwarae Cymru am ariannu Cydgyfeirio Ewropeaidd i gefnogi trosglwyddo Lefel 2 Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) wedi cael ei ohirio, felly yn y cyfamser rydym wedi ailgynllunio'r modd y byddwn yn trosglwyddo P³ er mwyn sicrhau y caiff ein costau eu talu i gyd:

Rydym yn cynnig amrywiol opsiynau ar gyfer trosglwyddo cymwysterau Lefel 2 (P³), o gyflogwyr yn cyflenwi hyfforddwy ac aseswyr a Chwarae Cymru'n gweithredu fel Canolfan i'r SQA, ymlaen i Chwarae Cymru'n derbyn cyfrifoldeb am bob agwedd o drosglwyddo'r cymhwyster. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Chwarae Cymru.

Mewn datblygiad strategol, mae SkillsActive (y Cyngor Sgiliau Sector dros waith chwarae) wedi cyflwyno cynnig i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) fel rhan o'r Rhaglen Gronfa Blaenoriaeth Sector i gefnogi datblygiad Unedau Lefel 3 P³ ac ysgrifennu deunyddiau dysgu drafft ar gyfer y Wobr. Hyderwn yn fawr iawn y bydd y cais hwn yn llwyddiannus ac y gwelwn bod Gwobr Lefel 3 ar gael i'w drosglwyddo yn 2012.

Rydym hefyd yn gweithio ar opsiynau ar gyfer trosglwyddo'r gyfres cymwysterau Gwaith Chwarae Lefel 3 EDI newydd ac rydym yn parhau i archwilio sut y gallwn dynnu ariannu prif ffrwd DCELLS i lawr i gefnogi trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae.

Y diweddaraaf am ein Staff

Symudodd **Jane Hawkshaw**, Rheolwraig y Ganolfan Genedlaethol, ymlaen ar ôl y Nadolig yn dilyn cau Gwaith Chwarae Cymru (gan i ariannu LICC ddod i ben). Mae Jane newydd ddechrau gweithio yng Ngholeg Cymunedol YMCA Cymru ble y bydd yn cynorthwyo gyda throsglwyddo cymwysterau gwaith ieuencid ar draws Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Felly mae'n bosibl y daw rhai ohonoch ar ei thraws yn ei rôl newydd. Os ydyn ni'n 'nabod Jane, fe fydd yn eiriol y dylai gweithwyr ieuencid gyflawni cymwysterau gwaith chwarae ... ac y bydd yn rhannu bisgedi ym mhell ac agos.

Mae **Richard Trew**, ein Swyddog Datblygu Cymwysterau, yn dal i weithio fel partner i Chwarae Cymru, gan drosglwyddo P³ a pharhau i redeg ein Canolfannau Cyrff Dyfarnu. Pan nad yw'n gweithio yn Chwarae Cymru mae'n debyg y'i ceir adre'n darllen llyfrau



gwaith chwarae, yn gweithio ar ei gyfrifiadur neu'n cyfansoddi cerddoriaeth.

Fe weithiodd **Maria Worley**, ein Cydlynnydd Cymwysterau, â ni ar secondiad o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae wedi dychwelyd yno am gyfnod, ond bydd yn symud ymlaen ym mis Mehefin. Mae wedi cyflawni cymwysterau hyfforddi ac mae'n bwriadu cwblhau rhagor. Mae'n gobeithio cael gwaith ym maes plant a phobl ifainc, a phwy a wŷr, efallai y cawn ei gweld yn ôl yn Chwarae Cymru rywbrdy yn y dyfodol. Gobeithio wir!

Paul Bonel – ffarwel trist

Bu farw Paul o ganr ar 23 Ionawr 2011 yn ei gartref yn Llundain. Bu'n gyfaill Bac yn gydweithiwr am nifer o flynyddoedd, a byddwn ni a llawer o bobl ar draws y sector gwaith chwarae yn gweld ei eisiau'n fawr.

Treuliodd Paul y rhan fwyaf o'i yrfa fel gweithiwr chwarae a gweithiwr ieuencid. Yn ddiweddar ef oedd pennaeth Uned Gwaith Chwarae SkillsActive, y cyngor sgiliau sector ar gyfer Hamdden Egniol, Dysgu a Lles. Fe gefnogodd Chwarae Cymru o'r

cychwyn cyntaf, gan gyfrannu at ein partneriaeth weithio gref gyda SkillsActive a chydweithio â ni wrth anelu i gyflawni dyheadau'r gweithlu gwaith chwarae yng Nghymru – ac am beth amser bu'n ymddiriedolwr ar Fwrdd Chwarae Cymru.



Digwyddiadau

Street Play Finale – London Play

2 Gorffennaf 2011

Coram Fields, Llundain
www.londonplay.org.uk

IPA 2011 – 50^{ed} Pen-blwydd

Chwarae i'r Dyfodol –

Goroesi a Ffynnu

4 – 7 Gorffennaf 2011

www.ipa2011.org

Love Parks Week

23 – 31 Gorffennaf 2011

Trwy Brydain
www.loveparksweek.org.uk/

Diwrnod Chwarae

3 Awst 2011

Trwy Brydain
www.playday.org.uk

The Beauty of Play – The Dark Side of Play

9 – 11 Medi 2011

Stone, Swydd Stafford
www.ludemos.co.uk/BOP.htm

Aelodaeth

Ymunwch ac ychwanegu eich llais

Mae amser ar ôl ichi ymuno â Chwarae Cymru ac ychwanegu eich llais ar gyfer 2011.

Bydd eich cefnogaeth yn helpu i hysbysu ein safbwyntiau polisi a dylanwadu ar ein trafodaethau a'n gwaith gyda'r llywodraeth ac asiantaethau eraill; tynnu sylw at faterion sy'n achosi pryder a dylanwadu ar bolisïau gyda llunwyr polisi lleol a chenedlaethol; rhannu cefnogaeth ymysg ein gilydd, arfer gorau a gwybodaeth gydag aelodau eraill.

Beth allwn ni ei wneud i chi? Mae buddiannau'n cynnwys: eich hysbysu ynghylch datblygiadau polisi diweddar; derbyn efwletinâu rheolaidd yn llawn newyddion a gwybodaeth ariannu; gostyngiadau ar gyhoeddiadau Chwarae Cymru; mynediad i wiriadau rhad ac am ddim gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn darpariaeth chwarae rheoledig.

Am fwy o wybodaeth ac i lawrlwytho Ffurflen Aelodaeth ymwelwch â'n gwefan:
www.chwaraecymru.org.uk

Pob hwyl!

Gweithiodd Kate Barron, ein Cynorthwywraig Weinyddol, gyda Chwarae Cymru am bedair blynedd.



Yn dilyn cyfnod diweddar yn gweithio fel Gweinyddwraig Hyfforddiant Cymunedau'n Gyntaf gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae Kate wedi dychwelyd gartref i Borthcawl am yr haf ble y mae'n bwriadu syrffio a pharatoi ar gyfer taith tri mis i Asia ac Awstralia – dymunwn yn dda iddi ar ei thaith.



Tîm Datblygu Chwarae Cymru – beth nawr?

Bellach **Marianne Mannello** yw ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Bolisi, Cefnogaeth ac Eiriolaeth.

Ar hyn o bryd mae **Sarah Southern** yn gweithio gyda Chwarae Cymru fel swyddog prosiect, yn cydlynu'r Prosiect Mannau Chwaraeadwy (cyfundeib gyda Chymdeithas Chwarae'r Tair Sir).

Mae **Michelle Jones** bellach yn gweithio fel Cynorthwywraig Cynnal Dysgu yng Nghaerffili, a fwy na thebyg yn sicrhau bod y plant yn cael y gorau o'u hamser chwarae yn yr ysgol. Mae Michelle hefyd yn gweithio fel swyddog prosiect i Chwarae Cymru (yn ddiweddar cynhaliodd werthusiad ar ran Play Right, cymdeithas chwarae'r sector gwirfoddol dros Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot).

Ar hyn o bryd mae **Martin King-Sheard** yn cael ei secondio dridiau'r wythnos at Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Conwy fel Prif Swyddog Chwarae Conwy, ble y datblygodd a lansiodd strategaeth chwarae'n ddiweddar. Mae hefyd yn gweithio i Chwarae Cymru, yn cynorthwyo panel Cyfran Deg i drosglwyddo'r rhaglen Cyfran Deg ar Ynys Môn.